**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Tachwedd 2011**

**Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R ARBEDION YN Y GYLLIDEB 2011-2014**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r mecanwaith adrodd rheolaidd i'r Panel Gweithredol am y cynnydd mewn perthynas â chael yr arbedion angenrheidiol, sef 2.4 miliwn, ac unrhyw anawsterau a gafwyd. Dyma lefel y gostyngiad yn y gyllideb a gyfarwyddwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 10fed Rhagfyr 2010.

## Y CEFNDIR

2 Mae'r Aelodau'n ymwybodol iawn o gefndir y penderfyniadau a wnaeth yr Awdurdod ynglŷn â'i gyllideb refeniw am y tair blynedd nesaf. Cafodd y rhesymau am y toriadau, a'r ffyrdd y caiff yr arbedion hyn eu gwneud, eu hesbonio'n fanwl yn y papur ar yr Opsiynau o ran y Gyllideb a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Hydref 2011.

3 Gan ein bod bellach saith mis i mewn i'r flwyddyn ariannol gyntaf yn dilyn y penderfyniad strategol hwnnw, mae'n amser adrodd am y cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r £800,000 cyntaf o'r gostyngiadau hynny. Lle bo modd, nodir effaith yr arbedion hynny, er y dylid cadw mewn cof ei bod yn dal yn rhy gynnar i weld unrhyw effeithiau posib tymor hir ar ddarparu gwasanaethau.

4 Dim ond y mis diwethaf y gwnaed y penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i'r swyddogion drafod system gylchrestr gyda'r cyrff cynrychioliadol. Er hynny, mae'r swyddogion a chynrychiolwyr

Undeb yr FBU yn ymwybodol mai ychydig o amser sydd ar gael i sicrhau cytundeb er mwyn gallu cael system gylchrestr yn barod i'w chychwyn ar 1af Ebrill 2012. Yn hollbwysig, mae angen cael cytundeb lleol ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd i'r bobl a allai fod yn rhan o ddileu swyddi. Gan gadw hyn mewn cof, mae'r gwaith wedi dechrau ar unwaith, a bydd ail ran yr adroddiad hwn yn nodi cyfeiriad y gwaith hwn.

**GWYBODAETH**

5 Mae'r Aelodau eisoes wedi derbyn gwybodaeth am yr adolygiad o ofal swyddogion a'r strwythur yn dilyn hwnnw. Un o ganlyniadau'r adolygiad oedd cael wyth yn llai o swyddi rheolwyr canol ar yr ochr weithredol, gan arwain at arbediad o £450,000. Oherwydd cynllunio hir dymor o'r blaen, llwyddwyd i gael hyn heb orfod diswyddo. Mae rhywfaint o'r dyletswyddau diogelwch tân deddfwriaethol yr arferid ei wneud gan swyddogion yr ochr weithredol bellach wedi cael eu trosglwyddo i swyddogion cydymffurfiaeth ar delerau ac amodau'r llyfr gwyrdd. Erbyn hyn, mae'r bobl hynny wedi cael eu recriwtio a dechrau ar eu hyfforddiant ar 1af Medi 2011. Da nodi bod y strwythur newydd i'w weld yn ymsefydlu'n dda.

6 Ar ôl adolygu'r holl ddyletswyddau anstatudol, canfuwyd mai ychydig iawn o'i gyllideb refeniw ei hun y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei wario ar weithgareddau o'r fath. Er hynny, penderfynodd yr Aelodau beidio ag ariannu Digwyddiad y Diffoddwyr Tân Ifanc. Er eu bod yn gefnogol iawn i gynllun y Diffoddwyr Tân Ifanc yn gyffredinol, cytunodd yr Aelodau i beidio â chynnal y digwyddiad blynyddol hwn, ac arweiniodd hynny at £12,000 o arbedion.

7 Arbedwyd dros £200,000 trwy leihau llinellau dewisol yn y gyllideb. Lleihawyd rhai llinellau yn y gyllideb, megis hysbysebion a threuliau recriwtio, 50%. Nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith hyd yn hyn gan mai prin yw'r recriwtio a wnaed yn allanol. Pan fo swydd wedi codi, cadwyd hi'n wag neu, yn dilyn canllawiau adnoddau dynol ar arferion da, cafodd ei hysbysebu'n fewnol. Bydd gweddill y gyllideb yn annigonol unwaith y bydd angen recriwtio'n allanol, yn enwedig yn achos swyddi allweddol sy'n gofyn am sgiliau arbenigol.

8 Roedd ffioedd dysgu a datblygu a chynadleddau ar yr ochr anweithredol £36,000 yn llai. Yn y tymor byr, mae'r bwlch hwn yn cael ei lenwi trwy ddefnyddio e-fforymau a gweminarau er mwyn i'n gweithwyr gael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf. Mae system mwy llym o reoli faint o gynadleddau a fynychir wedi arwain at arbedion ar ffioedd cyrsiau a'r costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig.

9 Mae mesurau eraill ar gyfer torri costau wedi cynnwys peidio â darparu brechiadau rhag y ffliw i weithwyr, er ein bod yn dal i'w hannog i gadw'n heini ac iach. Mae cyfuno seremoni'r Fedal am Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw a'r seremoni Wobrwyo wedi arbed £8,000. Mae cyhoeddiadau wedi cael eu canslo, a daethpwyd â thrafodaethau gyda'r Heddlu i ddarparu gwasanaeth ymchwilio i ben.

10 Lleihawyd y gyllideb Diogelwch Cymunedol £50,000. Mae hyn wedi golygu bod llai o ymarferwyr wedi eu recriwtio na'r bwriad, ac mae hyn yn ei dro wedi gohirio trosglwyddo swmp yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref o ddiffoddwyr tân i ymarferwyr arbenigol. Bydd yn anos cyrraedd targed yr Awdurdod Tân ac Achub o gael 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref eleni nag yn y blynyddoedd a fu.

11 Yn ogystal â'r gwaith a wnaed trwy'r prosiect gwerthuso swyddi, mae adolygiad pellach o swyddi'r ochr weinyddol wrthi'n mynd yn ei flaen. Y bwriad yw darparu cefnogaeth weinyddol i'r strwythur newydd ac i orsafoedd y system dyletswydd yn ôl y galw, ond o fewn y gyllideb bresennol. Mae costau staff yr ochr gefnogol wedi cael eu rheoli'n ddoeth trwy ddefnyddio dau bolisi sydd yn eu lle ers tro ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd yr Aelodau'n cofio bod gan yr Awdurdod gynllun diswyddiadau gwirfoddol yn ei le ers 2007, a pholisi "ymddeoliad cynnar ar sail effeithlonrwydd". Mae rhai aelodau o'r staff wedi troi at y rhain, ac mae hynny wedi creu £174,000 o arbedion gros y flwyddyn trwy ostwng nifer swyddi staff cefnogol.

12 Fel y datgelwyd eisoes i Aelodau'r Awdurdod yn yr adroddiad alldro amcanol, adnabuwyd nifer o arbedion unigol a allai gyfrannu at danwariant posib ym mlwyddyn ariannol 2011/12, uwchlaw'r £800,000 o arbedion yn y gyllideb sylfaenol. Gellid defnyddio'r tanwariant hwn i ariannu costau pontio tymor byr fel rhan o gyflwyno system gylchrestr yn 2012/13.

13 O ran y cynnydd mewn perthynas ag opsiwn y system gylchrestr, da gallu adrodd bod y Dirprwy Brif Swyddog Tân ac uwch reolwyr wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Undeb yr FBU ar dri achlysur gwahanol i drafod y mater. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar 13eg Hydref, 3[ydd] Tachwedd a 14[eg] Tachwedd 2011. Mae'r swyddogion yn fodlon â ffordd ragweithiol a chymwynasgar yr Undeb yn lleol, sydd wedi rhoi nifer o awgrymiadau gerbron ynglŷn ag arbed costau, ac mae pob un ohonynt yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae'r ddwy ochr yn cydnabod natur ddifrifol y sefyllfa ariannol, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i gael tir cyffredin er mwyn datblygu ffyrdd newydd o weithio.

14 Mae cynrychiolwyr o Undeb yr FBU wedi derbyn gwybodaeth fanwl am yr opsiynau posib sy'n bodoli ar gyfer y gylchrestr, a hynny gan y rheolwyr gwylfa a oedd yn rhan o'r tîm ymchwilio cychwynnol. Roedd yr holl ffeithiau a ffigurau o'r cyflwyniad hwn ar gael i'r Undeb i fynd gyda nhw i'r gorsafoedd. Mewn cyfarfodydd wedi hynny, mae'r Undeb wedi adrodd yn ôl y pryderon a fynegwyd gan ddiffoddwyr tân, ac maent wedi gwneud awgrymiadau eraill. Mae'r awgrymiadau hyn wrthi'n cael eu hystyried gyda'r Undeb er mwyn gweld a oes lle iddynt o fewn amcanion yr Awdurdod. Yr amcanion hyn yw sicrhau bod nifer gywir o ddiffoddwyr tân sgilgar ar gael bob amser i fynd at ddigwyddiadau, ond eto'n dal i gael y lefel angenrheidiol o arbedion. Mae'r cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar 21[ain] Tachwedd 2011, a bydd hwnnw'n canolbwyntio ar agweddau cyfreithiol dileu swyddi, a datblygu'r meini prawf ar gyfer asesu'r gweithwyr hynny a allai fod yn rhan o'r dileu swyddi.

**ARGYMHELLION**

15 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wneir mewn perthynas â gwneud yr arbedion ariannol angenrheidiol eleni, a'r trafodaethau cadarnhaol sy'n mynd rhagddynt rhwng uwch reolwyr y Gwasanaeth ac Undeb yr FBU ynglŷn â gweithredu ffyrdd newydd o weithio.